

1

**Cefndir**

Cafodd Plentyn A a'i frawd neu chwaer eu lleoli gyda gofawrwr maeth brys ym mis Tachwedd 2019 ar ôl nodi pryderon a arweiniodd at fethiant yn eu lleoliad mabwysiadu. Sicrhaodd yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant a rennir trwy achosion gofal, a lleolwyd y plant gyda gofawrwr maeth hirdymor a oedd newydd ei gofrestru, ac roedd angen lleoliadau seibiant yn aml. Ym mis Chwefror 2020, cafodd y ddau blentyn eu harhosiad gofal seibiant cyntaf, sef yr unig un, gyda gofawrwr maeth seibiant R. Ar yr un pryd, cafodd Oedolyn V, a oedd o dan drefniant Pan Fydda i'n Barod, ei roi yn yr un lleoliad seibiant. Ym mis Mai 2020, datgelodd Plentyn A fod Oedolyn V wedi ei gam-drin yn rhywiol.

**CYSUR 4 2020****Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig**

2

**Yr Adolygiad Hybrid**

Teimlwyd bod rhywfaint i'w ddysgu o archwilio'r asiantaethau cymorth a ddarparwyd i Blentyn A ac Oedolyn V. Roedd Plentyn A a'r oedolyn ifanc agored i niwed yn dibynnu ar yr awdurdod lleol am eu gofal a'u lles. O ganlyniad, mae Adolygiad Ymarfer Plant ac Adolygiad Ymarfer Oedolion wedi'u cynnal, o dan ymbarél model hybrid sy'n caniatáu i brofiadau bywyd Plentyn A ac Oedolyn V gael eu harchwilio yn eu rhinwedd eu hunain. Mae Adroddiad Adolygu Ymarfer a Briff 7 Munud wedi'u cynhyrchu mewn perthynas ag Oedolyn V, ac mae hyperddolenni wedi'u darparu ar gyfer y rhain er hwylustod. Teitl adolygiad Oedolyn V yw "CWMPAS 2 2020".

7

**Gwella Systemau ac Arfer**

- Dylid atgoffa gweithwyr iechyd proffesiynol i gofnodi amser a dyddiadau y cynhelir asesiadau iechyd.
- Dylid rhoi gwybodaeth am gefndir iechyd plant i leoliadau gofal maeth newydd er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o anghenion iechyd a godwyd yn flaenorol gan ofalwyr eraill.
- Dylai'r awdurdod lleol roi sicrwydd yr ymgynghorir yn llawn â thimau gofal plant a'u bod yn ganolog wrth wneud penderfyniadau ar ddarpariaeth seibiant a pharu – a bod polisïau'n cael eu dilyn.
- Dylid egluro a ellir defnyddio'r protocol Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol rhanbarthol ar gyfer anghydfodau mewnol.



3

**Prif Themâu: Prinder Lleoliadau / Anghenion Cwmhleth**

Amlygwyd heriau sylweddol yn yr adolygiad hwn o ran prinder lleoliadau maeth a seibiant. O fewn cyd-destun o gymhlethdod angen cynyddol a welir mewn perthynas â phlant ac oedolion ifanc, mae hyn yn creu her gymhleth o ran nodi lleoliadau addas sy'n cael eu harwain gan anghenion ar gyfer plant ac oedolion ifanc.

Yn yr adolygiad hwn, bernid pe na bai prinder gofawrwr maeth profiadol, efallai na fyddai Plentyn A a'i frawd neu chwaer wedi bod angen gofal seibiant ar yr adeg honno. Yn ogystal, ni ddylai fod angen darpariaeth seibiant ar gyfer oedolyn o dan y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' mewn lleoliad maeth.

6

**Gwella Systemau ac Arfer**

- Dylid atgyfnerthu, drwy oruchwyliaeth, hyfforddiant a chyfathrebu â staff, bwysigrwydd uwchgyfeirio pryderon a'r broses chwythu'r chwiban pan fo pryderon ynghylch penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch risg a diogelu.
- Dylid egluro'r broses benderfynu ar gyfer penderfynu ar ofal seibiant pan fo anghenion plant a gofawrwr maeth yn gwrthdaro.
- Dylid sicrhau bod staff gwaith cymdeithasol yn y gwasanaeth gofal maeth yn deall rheoli risg a diogelu plant sy'n agored i niwed yn llawn er mwyn sicrhau bod penderfyniadau paru yn cael eu gwneud gyda gwybodaeth lawn am hanes plant.
- Dylai clinigwyr fynd ar drywydd dilynol yn brydlon pan nad oes ganddynt fynediad at hanes meddygol cyflawn.

5

**Arferion Da a Nodwyd**

- Roedd yr ymateb amlasiantaeth i ddatgeliad Plentyn A yn gyflym ac yn gadarn, a chafwyd euogfarn amserol.
- Roedd yr ymarfer yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn cynnwys ymweliadau ar y cyd.
- Roedd Plentyn A a'i frawd neu chwaer yn gallu parhau i gael eu lleoli gyda'i gilydd.
- Darparodd ysgol y plant gefnogaeth ragorol i'r plant, a chawsant aros o fewn yr un ysgol.
- Roedd y gweithiwr cymdeithasol yn cefnogi ac yn eiriol dros Blentyn A a'i frawd neu chwaer.
- Clywyd llais y plant yn ystod achosion gofal.
- Mae adroddiadau iechyd yn adlewyrchu bod y person a ddaeth â Phlentyn A i apwyntiadau wedi'i ddogfennu.

4

**Prif Themâu: Penderfyniadau Paru a Lleoli**

Roedd y gweithwyr cymdeithasol yn cefnogi Plentyn A ac Oedolyn V, yn ogystal â gofawrwr maeth, wedi bod yn bryderus am y risgiau a oedd yn bodoli mewn perthynas â'r lleoliadau y cytunwyd arnynt ac yn enwedig hanes Oedolyn V o ymddygiad rhywiol niweidiol. Er bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i hwyluso paru ar sail risg, ni ddilynwyd y polisïau hyn mewn perthynas â Phlentyn A ac Oedolyn V.

Nid oedd prosesau anffurfiol a ddatblygwyd o fewn y gwasanaeth maethu yn cydymffurfio â pholisi, a rhoddwyd pwysau amhriodol ar ofalwyr seibiant i gytuno ar leoliad yr oedd ganddynt bryderon yn eiddo gylch a'r risgiau a berir. At hynny, rhannwyd lefelau annigonol o wybodaeth am anghenion plant a'r risgiau cysylltiedig.